Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Aelod Pwyllgor Rheoliadol

## Disgrifiad Swydd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor

### 2. Diben y Swydd a'r Gweithgareddau

- **Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a phenderfyniadau lled-farnwrol**
  - Bod yn ymwybodol o natur lled-farnwrol gwaith gwneud penderfyniadau'r pwyllgor rheoleiddio
  - Bod â gwybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor
  - Sicrhau manylder a gwrthrychedd wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac mewn achosion/ceisiadau unigol cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol

- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**
  - Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd y pwyllgor rheoleiddio
  - Gwneud penderfyniadau call a chytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**
  - Sicrhau gonestrwydd penderfyniadau pwyllgor a'i rôl ef/hi drwy lynu at y Cod Ymddygiad ac unrhyw ofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
  - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith
  - Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor

### 3. Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd